## Cynigion heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd ar 04 Gorffennaf 2006

**NNDM3173 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2006-5, yn cael ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a nodir yng nghyswllt pob mater yn yr atodlen honno a bod swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y rheiny'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones (Cadeirydd)
Lorraine Barrett
Mick Bates
Jocelyn Davies

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 31 Hydref 2006, pa un bynnag a fydd gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw, dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, yng nghyswllt mater o'r fath, i'r Prif Weinidog.

**Atodlen**

**CAIS CYNLLUNIO A ALWYD-I-MEWN DAN ADRAN 77 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MR A LLOYD AR GYFER CYNNIG I GODI TY ANNEDD A FFURFIO MYNEDFA NEWYDD I'R BRIFFORDD YN WAUNBANT, LLEDROD, CEREDIGION**

**APÊL CYNLLUNIO DAN ADRAN 78 DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN REDROW HOMES (NORTH WALES) LTD AR GYFER CYNNIG I ADFER HEN WAITH BRICS A CHWAREL, DATBLYGU HYD AT 300 O DAI ANNEDD, CREU LLECYN AGORED, COETIR, ARDAL O GREU CYNEFIN A THIRLUNIO, ADEILADU MYNEDFA NEWYDD A GWELL I GERBYDAU A CHERDDWYR YN HEN WAITH BRICS LANE END, CHURCH ROAD, BWCLE, SIR Y FFLINT**

**NNDM3174 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru swyddogaeth Y Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan baragraff 2(3) (c) Atodlen 1 Deddf Cydraddoldeb 2006 ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, mo'u dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaeth honno ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

*Gellir canfod copi o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen hon: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060003_en.pdf*

**NNDM3175 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**NNDM3176 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2006; ac c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NNDM3177 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006.

**NNDM3178 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NNDM3179 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor The Kava-kava in Food (Wales) Regulations 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NNDM3180 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, The Kava-kava in Food (Wales) Regulations 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, The Kava-kava in Food (Wales) Regulations 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006; ac

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NNDM3181 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NNDM3182 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Rhif 2) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NNDM3183 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor The Fire and Rescue Services (Charging) (Wales) Order 2006 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NNDM3184 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, The Fire and Rescue Services (Charging) (Wales) Order 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, The Fire and Rescue Services (Charging) (Wales) Order 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2006.

**NNDM3185 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ail-ddatgan ei gefnogaeth i nod hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu cenedl ddwyieithog;

2. Yn nodi cyhoeddi *"Iaith Pawb ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg 2005-06",* a'r cynnydd da a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf:

3. Yn cadarnhau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru drwy ddulliau eraill yn hytrach na chyflwyno dyletswyddau statudol newydd ar draws y sector preifat gyda golwg ar y Gymraeg, y tu hwnt i Ddeddf yr Iaith Gymraeg fel y mae ar hyn o bryd.

*E-bostiwyd copïau Cymraeg a Saesneg o "Iaith Pawb ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg 2005-06" at Aelodau'r Cynulliad ar 4 Gorffennaf 2006.*

*Gellir gweld Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 trwy ddilyn y ddolen hon: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1993/Ukpga_19930038_en_1.htm*

**NNDM3186 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 31.2, yn cefnogi, mewn egwyddor, ddeddfwriaeth i:

Diwygio Erthygl 10(2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 i:

(a) estyn y diffiniad o Gae Chwarae i gynnwys unrhyw dir yn yr awyr agored a ddefnyddir at ddibenion addysg gorfforol neu hamdden; a

(b) diwygio'r diffiniad o Faes Chwarae i ddileu'r maint lleiaf sy'n ofynnol o ran ardal sydd wedi'i diffinio.

*Isod ceir datganiad o'r pwerau cyfreithiol a fyddai'n caniatáu i'r ddeddfwriaeth arfaethedig gael ei gwneud, ynghyd ag amlinelliad o'r goblygiadau o ran adnoddau a deunyddiau eraill, a hynny er mwyn helaethu ar y cynnig:*

**Datganiad o bwerau cyfreithiol:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 31.2:

Yn datblygu is-ddeddfwriaeth ddrafft a gaiff ei gwneud dan adrannau 59, 61(1), a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddiwygio erthygl 10 (2) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995.

I gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y cynnig, byddai modd diwygio Erthyglau 10(2)(I)(i) a 10 (2)(I)(ii) o'r Gorchymyn hwnnw sy'n ymwneud â'r diffiniadau o 'Gae Chwarae' a 'Maes Chwarae'.

**<u>Goblygiadau o ran adnoddau:</u>**

Gan mai dim ond mân newid gweinyddol a wneir gyda'r diwygiadau hyn, ni ragwelir ond ychydig o oblygiadau o ran adnoddau. Bydd unrhyw wariant a ddaw yn eu sgil yn fach iawn.

Bydd gofyn i awdurdodau lleol wneud rhywfaint o waith gweinyddol ychwanegol o ran casglu a phrosesu'r ddarpariaeth hon ond ni fydd angen cynyddu taliadau a bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu harfer dan y trefniadau cyllidebol cyfredol.